**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE STATUTORY LICENSING COMMITTEE** |
| **PWNC:** | **STATUTORY LICENSING COMMITTEE - DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD 2019 DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD 2019** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: M. Moore (Is-gadeirydd, yn y Gadair)
D. Bevan
G. L. Davies
D. Hancock
W. Hodgins
J. P. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
D. Wilkshire
B. Willis

A:

| |
|---|
| Rheolwr Tîm - Trwyddedu a Masnachol |
| Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Cyfreithiwr |

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na wnaed unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorwyr B. Summers, B. Thomas a L. Winnett. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>ADRODDIAD GWEITHGAREDDAU AR GYFER CHWARTER 2 2019/2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm - Trwyddedu a Masnachol.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu a Masnachol yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar waith y Tîm Trwyddedu ar gyfer Chwarter 2 yng nghyswllt materion trwyddedu statudol.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm at yr Adroddiad Gweithredol a dywedodd y derbyniwyd 80 cais y chwarter hwn yn cynnwys 5 trwydded safle newydd, 1 tystysgrif safle clwb newydd a 40 hysbysiad digwyddiad dros dro.<br><br>Mae Atodiad 2 yn cynnwys data Chwarter 1 a Chwarter 2 ar gyfer dibenion cymharu gyda thueddiadau blaenorol.<br><br>Yn nhermau'r Adroddiad Rheolaeth, hysbysodd y Rheolwr Tîm yr Aelodau ei bod yn bryd adolygu Datganiad Polisi Trwyddedu Deddf Trwyddedu 2003 ac y byddai'n destun adroddiad ar wahân a gyflwynir i'r Pwyllgor maes o law. Mae Atodiad 1 yn amlinellu amserlen arfaethedig yr adolygiad polisi. Nodwyd y cynhelir y cyfnod ymgynghori yn ystod Chwefror/Mawrth 2020.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm y byddai'r Ffioedd Gamblo hefyd yn cael eu hadolygu yn ystod Chwarter 3 a 4 2019/20 gyda golwg ar weithredu unrhyw newidiadau arfaethedig o 1 Ebrill 2020.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad gweithgaredd ar gyfer y chwarter hwn (Opsiwn 2). | |